

DROS 11

# Addewid i'n plant sy'n derbyn gofal

**Mae'r addewidion hyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, i bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Wrecsam, wedi'u hysgrifennu gyda Chyngor Gofal Pobl Ifanc. Bydd yr holl oedolion sy'n gweithio gyda chi yn sicrhau mai'r addewidion yw'r hyn sydd wir yn digwydd – os nad yw hyn yn digwydd, rhowch wybod i ni!**

Mae'r niferoedd a ddangosir yn cynrychioli Erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r plentyn (UNCRC).

20 25 33 36

**DIOGEL**
Mi wnawn ni dy helpu di i gadw'n ddiogel ac mi fyddwn yma i ti pan mae arnat ein hangen ni.

6 24

**IACH**
Byddwn yn dy helpu di i fyw bywyd iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

15 31

**CYMDEITHASOL**
Byddwn yn dy gefnogi di i ymuno mewn gweithgareddau a gyda grwpiau a sefydliadau y byddi di eisiau ymuno â nhw fel nad wyt yn teimlo ar ben dy hun.

16 20

**GONESTRWYDD**
Byddwn yn rhoi gwybod i ti am bopeth y mae gennyt ti hawl iddo mewn ffordd agored a chlir.



Mae gan blant a phobl ifanc **42 o hawliau** o dan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).** Mae'r 42 o hawliau yn rhoi'r hyn y mae plant a phobl ifanc ei angen i dyfu i fyny yn hapus, iach a diogel. **Darllenwch grynodeb o bob hawl**

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

12

**GWRANDO ARNOCH**

Byddwn yn rhoi gwahanol ffyrdd i ti o leisio dy farn. Byddwn yn gwrando arna ti ac yn cymryd dy safbwyntiau o ddifri. Byddwn yn dy helpu di i ddelio efo dy broblemau.

9

**CYSWLLT**

Lle bynnag y gallwn byddwn yn dy helpu di i weld dy deulu a phobl eraill sy'n bwysig i ti.

19 20

**CARTREF**

Byddwn yn rhoi lle sefydlog i ti fyw lle byddi di'n teimlo'n ddiogel ac yn cael dy ofalu amdanat.



16 20

**PARCH**

Byddwn yn dy drin di mewn ffordd gyfeillgar a pharchus ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn parchu dy gyfrinachedd a dy breifatrwydd.

2 20

**LLWYDDIANT**

Byddwn yn dy gefnogi di i ennill sgiliau byw yn annibynnol, ac wrth i ti fynd yn hŷn yn dy baratoi di ar gyfer gadael gofal yn llwyddiannus ac i fyw ar dy ben dy hun fel oedolyn.



23 29

**CYFLAWNI**

Byddwn yn dy helpu di i gael hwyl a chyflawni pethau gwych yn yr ysgol ac mewn gweithgareddau eraill.

**CYSONDEB**

Byddwn yn gwneud ein gorau i beidio newid dy weithiwr cymdeithasol oni bai dy fod yn gofyn i ni wneud hynny. Os bydd rhaid i ni newid dy weithiwr cymdeithasol, byddwn yn dweud wrtha ti pam.